

Enw Myfyriwr: Joe Bunyan

Rhif Myfyriwr: 2304492

Darlithydd: Paul Duerinckx

Modiwl: ADAD5003

DATGANIAD CYDNABYDDIAETH AI

Dw i'n cydnabod y defnydd o Cysill (gwiredd sillafu a gramadeg Cymraeg) i gywiro camgymeriadau sillafu neu ramadeg. Dw i'n cadarnhau nad wyf wedi cyflwyno unrhyw destun a gynhyrchwyd gan ddeallusrwydd artiffisial fel fy ngwaith i. Dw i'n cadarnhau bod gen i gopïau o'm drafftiau, nodiadau, a'm hadnoddau eraill a defnyddiais cyn ac ar ôl defnyddio offer deallusrwydd artiffisial, y gallai ofyn i mi eu darparu fel tystiolaeth.

Rhestr o Ffigurau:

Ffig 1. Moriyama, D. (1969). *Accident* [Photograph]. Available at:
<https://www.christies.com/en/lot/lot-5067507> (Accessed: 31 March 2026)

Ffig 2. Parr, M. (1998). *Common Sense. 1998. IRELAND. Dingle. Races. 1998.* [Photograph]

Ffig 3. Arnatt, K. (1988-89). From *Pictures from a Rubbish Tip* [Photograph]. Available at:
<https://www.tate.org.uk/art/artworks/arnatt-pictures-from-a-rubbish-tip-t13171>
(Accessed: 31 March 2026)

Ffig 4. Yokota, D. (2012). From *Back Yard* [Photograph]. Available at:
<https://1000wordsmag.com/daisuke-yokota/> (Accessed: 1 April 2026)

Ffig 5. Rydet, Z. (1984). From *Sociological Record* [Photograph]. Available at:
<https://zofiarydet.com/zapis/en/library?page=1> (Accessed: 13 April 2026)

Ffig 6-7. Daifu, M. (2006-19). From *Project Family* [Photograph]. Available at:
<https://motoyukidaifu.blogspot.com/p/project-family.html> (Accessed: 15 April 2026)

Abstract:

Yn y traethawd hwn, dw i'n dechrau gan drafod fy mherthynas efo fy nhadcu a'i anhwylder casglu pethau, a sut mae hyn wedi ysbrydoli'r tri gair a ystyriwyd: gwrthrych, cof a meddiant. Yn yr adran gwrthrychau, dw i'n archwilio'r deuoldeb yn ffotograffiaeth rhwng gwrthrychau fel pwnc lluniau a lluniau sy'n wrthrychau eu hunain. Mae'r cysyniad hon yn cael ei gymhwyso i waith ffotograffwyr Daido Moriyama, Martin Parr a Kieth Arnatt. Yn yr adran cof, dw i'n trafod sut mae ffotograffiaeth wedi cael ei ddefnyddio yn hanesyddol i gynorthwyo cof. Wedyn, mae gwaith Daisuke Yokota yn cael ei ystyried mewn perthynas â theori'r ddelwedd grisial, a grybwyllir yn y llyfr *Photography, cinema, memory: the crystal image of time* (Sutton, 2009). Yn yr adran olaf, sef meddiant, dw i'n cysylltu'n ôl ag anhwylder casglu pethau a sut mae'r crynhoad yn dod yn estyniad o realiti seicolegol rhywun. Mae hyn yn fy arwain at theori Roland Barthes' o'r punctum a sut y gellir ei ddefnyddio ar gyfer gwrthrychau yn ogystal â lluniau. Trwy'r lens hwn, dw i'n edrych at waith Zofia Rydet a Motoyuki Daifu. I gloi'r traethawd, dw i'n cyflwyno'r cwestiwn: **sut mae ffotograffiaeth yn cyfryngu'r berthynas rhwng meddiant a chof?**

Rhagymadrodd:

Pan oeddwn i'n blentyn, roedd tŷ fy nhaid yn teimlo fel maes chwarae. Ar y pryd, doeddwn i ddim yn deall beth oedd anhwylder casglu pethau. Roedd y tŷ yn llawn dop o bob math o jync – mor cymaint fel nad oedd modd cyrraedd llawer o'r ystafelloedd – ond wrth gwrs, fe wnes i drïo. Ond wrth i mi fynd yn hŷn, sylwais i fod rywbeth yn bod efo fy nhaid ac nid fel hyn y byddai tŷ arferol yn edrych. Mae'r profiadau cynnar hyn wedi ysbrydoli llawer o fy ngwaith ffotograffiaeth fi yn y blynyddoedd diwethaf. Ac er nad yw'r traethawd hyn yn ymwneud â chasglu pethau diangen, mae'n ymchwiliad i tri gair sy'n cysylltu yn agos at y pwnc. Y gair cyntaf ydy gwrthrych - yn benodol, sut mae ffotograffiaeth yn darlunio gwrthrychau ac yn bodoli fel gwrthrychau eu hunain. Wedyn, dw i'n mynd i archwilio cof, ei pherthynas efo ffotograffiaeth a sut y gellir ei delweddu. Bydd y gair olaf, sef meddiant, yn fy ngalluogi i archwilio'r cysylltiadau seiciolegol ac emosiynol sydd gennym â'n heiddo. Ar ddiwedd y traethawd hwn, bydd yr ymchwiliadau hyn yn fy arwain i at gwestiwn – a fydd yn llywio fy astudiaethau yn y flwyddyn nesaf.


Gwrthrych:

Mewn perthynas â ffotograffiaeth, mae gan y term gwrthrych ddau ystyr gwahanol. Ar un llaw, mae ffotograffiaeth yn offeryn sy'n gallu darlunio gwrthrychau. Wedi'r cyfan, mae'r byd yn llawn gwrthrychau a byddai'n anodd i chi ddod o hyd i ddelwedd nad yw'n cynnwys rhai. Efallai mewn ffotograff o awyr glir? Ar y llaw arall, mae ffotograffau eu hunain yn wrthrychau. Maen nhw'n bodoli yn ffisegol mewn llyfrau neu fel printiau unigol, a gallu bod yn atgynhyrchu yn ddiddiwedd. Bydd yr adran hon o'r traethawd yn archwilio'r deinamig rhwng y ddau ystyr hyn.

Trafodwyd Susan Sontag ffotograffau fel eitemau cyffyrddadwy a casgladwy yn ei lyfr *On Photography* (2002). Mae hi'n dadlu bod “photographed images do not seem to be

statements about the world so much as pieces of it, minitures of reality that anyone can make or acquire” (2002, p. 4). Mae’r datganiad hwn yn tynnu sylw at y ffaith bod, er eu bod natur ffotograffiaeth yn creu cynrychioliadau gweledol o bethau yn y byd go iawn, mae’r cynrychioliadau hyn yn dod yn wrthrychau yn y byd go iawn hefyd. Mae Sontag hefyd yn dweud bod “to photograph is to appropriate the thing photographed” (2002, p. 4). Un ddelwedd gan y ffotograffydd Daido Moriyama yn dangos y cysyniad hwn yn dda iawn (ffigur 1). Ar yr olwg gyntaf, gwelir rhywbeth sy’n ymddangos fel damwain traffig. Fodd bynnag, ar ôl cipolwg pellach, gellir gweld – yn ôl adlewyrchiad fflach ar y print - bod hyn yn ddelwedd o ddelwedd o ddamwain traffig, wedi’i tynnu o boster diogelwch traffig yr heddlu (Christie’s, n.d.). Gan fynegi natur ffisegol ffotograffiaeth, mae hefyd yn siarad am ei galluogrwydd i gael ei atgynhyrchu.

Mae’r enghraifft flaenorol yn esbonio ffotograffiau fel gwrthrychau, felly rŵan byddwn yn trafod ffotograffiau o wrthrychau. Mae gwaith ffotograffydd Martin Parr yn adlewyrchu ein diwylliant prynwriaeth efo ffraethineb llym. Mae nwyddau plastig a bwyd sothach yn aml yng ngwrthrychau yn ddelweddau Parr (ffigur 2). Mae ei ddewisiadau arddulegol, yn enwedig yn ei lyfr *Common Sense* (1999), yn cynnwys ffilm dirlawnder uchel o’r enw Agfa Ultra (Golden, 1999, p. 108), fflach gryf a’r defnydd o lens macro, sy’n arwain at luniau mor fanwl fel eu bod bron yn mynd yn hyll. Wedi’u ddarlunio fel hyn yn golygu bod y gwrthrychau yn cael eu gwahanu o’u hamgylchedd gwreiddiol - wedyn, yn y llyfr, maen nhw’n cael eu hadlunio fel casgliad mawr o ddarnau gwahanol. Mae hyn yn dod yn ôl at ddadl Sontag bod ffotograffiaeth yn ddull o gronni “minitures of reality” (2002, p. 4), gan fod delweddau Parr yn lleihau gwrthrychau bod dydd i ddarnau bach, mawl sy’n gallu eu trefn mewn fformat llyfr. Yn hytrach na chyflwyno naratif liniol, mae *Common Sense* (1999) yn gweithredu fel crynhoad o consymsiwn modern, gan adlewyrchu syniad Sontag o’r byd fel cyfres o luniau y gellir eu cronni a’u meddiannu.



(ffigur 1)



(ffigur 2)

Mae gwaith Moriyama a Parr yn dangos sut mae ffotograffiaeth yn bodoli fel cynrychioliad a gwrthrych. Gall ffotograffwyr fanteisio ar y ddeuliaeth hon, i greu gwaith efo deialog neu dyniant rhwng yr elfennau ffisegol a'r hyn a ddangosir. Mae Keith Arnatt yn artist sy'n gwneud hyn yn dda, yn enwedig yn ei phrosiect *Pictures from a Rubbish Tip* (ffigur 3). Yn y gyfres, gallwn weld deilchion plisg wyau, bwyd wedi pydru a llafnau plastig budr – sbwriel nad yw pobl eisiau edrych arno, yn y bôn. Serch hyn, nid yw'r delweddau yn ymddangos yn hyll. Dywed ffotograffydd David Hurd am y gwaith:

...if you know anything about the history of painting you look and it suddenly appears like a Turner and that is also interesting. There is no argument. He actually called them his paintings. That's what he saw in the series. (MacDonald *et al.*, 2007, p. 5)



(ffigur 3)

Gall Arnatt trawsnewid sbwriel, a chreu rhywbeth prydferth trwy ei ddefnydd o golau naturiol da a ffilm lliw fformat mawr. Y canlyniad yw cyferbyniad trawiadol rhwng yr hyn sy'n cael ei darlunio a chorfforeiddrwydd y printiau sy'n eu gwneud yn ddymunol i'w gweld.

Ar ôl ystyried y tri enghraifft hyn, gallwn weld sut mae ffotograffiaeth fel cynrychioliad a ffotograffiaeth fel gwrthrych ddim yn dau peth gwahanol, yn hytrach, mae'n ddeuoliaeth – ac un sydd mewn cylch parhaol. Cyn gynted ag y caiff ffotograff o wrthrych ei dynnu, mae'r ddelwedd ei hun yn dod i fodolaeth fel gwrthrych. Mae hyn yn nodwedd o ffotograffiaeth y gall ffotograffwyr ei ddefnyddio i roi dyfnder a chymhlethdod i'w gwaith nhw.

Cof:

Yn gyffredinol iawn, mae ffotograffiaeth yn dangos i ni rywbeth sydd wedi bod. Mae Roland Barthes yn nodi bod “Photography’s inimitable feature [...] is that someone has seen the referent (even if it is a matter of objects) *in flesh and blood*, or again *in person*” (1982, p. 74). Wrth gwrs, mae yna lawer o ddulliau llawdrinio a thwylo, ond yn y bôn, mae tynnu llun yn golygu rhewi a chadw eiliad mewn amser. Felly, does dim rhyfedd bod ffotograffiaeth yn cael ei defnyddio'n gyffredin fel offeryn i gynorthwyo cof. Mae Sontag yn tynnu sylw at y ffaith bod ffotograffiaeth “has become one of the principal devices for experiencing something, for giving an appearance of participation.” (2002, p. 10). Mae hi'n mynd ymlaen i drafod pa mor gyffredin yw tynnu lluniau mewn twristiaeth. Mae pobl yn teithio i wledydd tramor i gael profiadau newydd – ond cael dogfenniaeth o'r profiadau hyn yn cadarnhau eu bod wedi digwydd, yn enwedig os bydd cof rhywun yn methu. Yn aml, mae lluniau'n teimlo'n fwy diogel na'r cof.

Mae Daisuke Yokota yn ffotograffydd sy'n archwilio bregusrwydd cof. Mae ei waith yn trio delweddu hyn gan ddefnyddio amrywiaeth o brosesau ystafell dywyll a digidol, yn cynnwys cylch o ail-ffotograffu, a esbonnir yma:

Even when a picture is originally taken digitally, Yokota always retakes it using film, as his aim is to change the “body” of the picture. He uses all kinds of tools, such as boiling water or cigarette lighters, in order to process the images that are fixed on the surface. (Futoshi, 2019, p. 223)



(ffigur 4)

Y canlyniad ydy ansawdd ysbrydol a darfyddol. Ar lefel sylfaenol, mae hyn yn gweithio ar gyfer cynrychiolaeth cof gweledol; cymyledig, amherffaith ac aneglur (ffigur 4). Ond, mae yna mwy yn digwydd yma – mae Hoshino Futoshi yn sôn bod y delweddau yn “imbued with materiality.” (2019, p. 223). Beth mae’n cyfeirio ato ydy’r haenen, sy’n cael ei greu bob tro y caiff llun ei ail-ffotograffu a’i brosesu. Wedi’r cyfan, mae ffotograffiaeth analog yn gyfrwng corfforol, felly bob tro y caiff y broses hon ei hailadrodd, caiff haen arall o amser (mewn ffordd drosiadol a ffisegol) ei hymgorffori yn y llun. Mae hyn yn golygu bod darluniad cof Yokota yn cael eu cryfhau gan y darnau o amser yn mynd heibio sy’n bodoli ynddynt.

Y ffordd y mae delweddau Yokota wedi’u greu, neu’n gweithredu efallai, yn debyg iawn i gysyniad y ddelwedd grisial. Mae Damian Sutton yn trafod hyn yn ei lyfr *Photography, cinema, memory: the crystal image of time*. Mae’r cysyniad yn delio efo themâu amser a chof mewn ffotograffiaeth. Mae’n seiliedig ar y syniad bod y gorffennol a’r presennol yn bodoli ar yr un pryd – y rheswm am hyn yw ein bod yn profi’r presennol trwy lygaid ein gorfennol (2009, p. 35). Mewn geiriau eraill, mae ein hatgofion a’n profiadau blaenorol yn cyfeirio’r ffordd rydyn ni’n gweld y byd heddiw. Os yw hyn yn wir, mae ffotograffiaeth yn gallu dal yr un haenen temprol hefyd. Mae Sutton yn esbonio hyn fel y ganlyn: “This past continues to exist as a virtual image [...]. The past thus coexists virtually with the present that recollects it.” (2009, p.35). Mae rhyngweithiad yn digwydd pan fydd y gorfennol yn cael ei gyfarfod â’n canfyddiad presennol ohono – felly, mae ffotograffiaeth yn cario amser haenog.

Ynglŷn â gwaith Yokota, nid yn unig y mae’r ddelwedd grisial yn berthnasol mewn ffordd drosiadol, ond oherwydd ei brosesu analog (cylch ail-ffotograffu ac yn y blaen), mae’r lluniau yn cynnwys yr haenen amser mewn ffordd lythrennol. Mae ei delweddau ystumiedig yn tynnu sylw at bregusrwydd ein cofion, sydd ymhellach yn herio’r dybiaeth gyffredinol fod ffotograffiaeth yn record gadarn o’n gorffennol ni.

Meddiant:

Dechreuais i'r traethawd hwn trwy sôn am dŷ fy nhaid. Dyna oedd y lle ble sylweddolais i fod meddiant yn feddwl cymaint mwy na dim ond bod yn berchen ar rywbeth. Yn amlwg, achos fy nhaid yn un eithafol, ond gyda phawb, mae cysylltiad emosiynol a seicolegol â llawer o'r gwrthrychau sydd gennym ni. Mae rhai seicolegwyr yn priodoli hyn i'r cofion gwrthrychau yn gallu cynnal i ni:

The qualities of possessions as external things that surround us throughout our day-to-day lives offer unique opportunities to exercise a level of control over our memories. Archiving, displaying or using possessions within the home that cue memories allows us to connect with the past, bringing it closer to the present or to store it away, giving us permission to forget... (van den Hoven *et al.*, 2021, p. 95)

Mae lluniau, yn enwedig albymau lluniau, yn enghraifft dda am hyn. Nid oes gan eu materoldeb werth o gwbl, o'i gymharu â'r gwerth emosiynol y maent yn ei gario i'r person sy'n eu meddu nhw – maen nhw'n wrthrychau y mae pobl yn eu cadw yn bennaf er mwyn cofio pethau.

Mae'r syniad fod cof yn ffactor mawr ynglŷn â meddiant, hefyd yn gallu egluro achos posib i anhwylder casglu pethau (van den Hoven *et al.*, 2021, p. 96). Yn ei llyfr ar y pwnc, mae Rebecca R. Falkoff yn disgrifio anhwylder casglu pethau fel: "unique because its diagnosis requires the existence of a material entity external to the patient's psychic reality: the hoard" (2021, p. 6). Er bod y datganiad hwn yn wir, mae'n methu â chydabod y cysylltiad emosiynol cynhenid rhwng y crynhoad a realiti seicolegol yr unigolyn. Mae'r gwrthrychau yn y crynhoad yn dod yn estyniad o'r realiti seicolegol. Efallai, gellir esbonio'r cysylltiad

emosiynol cryf â phethau sy'n eiddo i ni gan ddefnyddio cysyniad Barthes o'r *punctum*. Mae'n disgrifio punctum fel yr "accident which pricks me (but also bruises me, is poignant to me)" (1982, p. 27). Wrth gwrs, mae Barthes yn siarad am luniau yma, ond does dim rheswm pam na allai rhywun gael yr un profiad efo gwrthrychau. Er enghraifft, bydd tegan plentyndod pawb yn sbarduno teimladau cryf ynddynt.



(Ffigur 5)

Mae prosiect Zofia Rydet *Sociological Record* yn gasgliad enfawr o luniau sy'n dangos pobl a thu fewn eu cartrefi. Ond mwy na hyn, mae'n gweithredu fel astudiaeth o amser a lle yng Ngwlad Pwyl trwy eiddo pobol. Gall y gwylwyr ddysgu llawr am Wlad Pwyl yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg trwy'r gwrthrychau yng nghartrefi pobol. Mae muriau yn cynnwys llawer o ddelweddiaeth gatholig (ffigur 5), yn adlewyrchu gwlad grefyddol iawn, a'r

taclusrwydd, er bod amodau a oedd yn aml yn gyfyng yn adlewyrchu agweddau cymdeithasol yr oes. Gall archwiliadau agosach yn datgelu mwy – mae Szupinska-Myers yn nodi, o’r “... candy packaging or whiskey bottles, arranged with care alongside religious images, we may glean that consumerism and piety were not at odds in Poland but indeed congruous.” (2019, p. 24). Mae’n amlwg y gall y meddianau sydd gennym ni yn dangos llawer amdanom ni. Ond ymhellach, pan fydd meddianau’n cael eu dogfennu ar raddfa fel yn *Sociological Record* (parhaodd y prosiect am bron i ddeg mlynedd ar hugain, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, teithiodd Rydet dros Wlad Pwyl yn aml) - (The Photographers Gallery, 2025), mae cof torfol yn dechrau ffurfio. Mae gwrthrychau unigol yn dod yn rhan o ddogfen gasgliadol mawr. I’r bobl a fu’n byw trwy’r cyfnod hwn, mae’n siŵr y byddent yn teimlo punctum wrth edrych ar y *Sociological Record*. Yn y gyfres hon, mae Rydet yn dangos, er bod meddianau yn eitemau unigol, efo’i gilydd, maen nhw’n gallu creu darluniad manwl o gyfnod o amser a chymdeithas.

Byddai’n camgymeriad i dybio bod gan un o aelodau teulu Motoyuki Daifu anhwylder casglu pethau - mae’r llanast a welir yn ei gyfres *Project Family* (ffigur 6 a 7) yn debygol o fod yn ganlyniad o amodau cyfyng yn Japan (Aperture, 2019). Fodd bynnag, mae’r lluniau yn y gyfres yn edrych rhywbeth tebyg i grynhoad rhywun efo anhwylder casglu pethau, felly byddaf yn trafod y gyfres yn y cyd-destun hwn. Yn llyfr Falkoff, mae yna ddyfyniad sy’n berthnasol i *Project Family*, sef: “The difference between a piece of junk and a valuable antique rests not in the objects but in social relations.” (2021, p. 61). Mwy na antîcs, beth mae’r dyfyniad hwn yn golygu yw nad yw gwerth gwrthrych yn gynhenid yn ei materoldeb, yn hytrach, mae’n cael ei phenderfynu gan unigolion. Yng ngwaith Daifu, mae yna newid gwerth trwy lens ei gamera - Mae’n gallu gweld yr harddwch a donioldeb yn yr holl meddianau sy’n llenwi ei gartref, a rhannu’r persbectif hwn efo’r gwylwyr. Gellir ystyried llawer o’r meddianau yn dŷ Daifu fel jync, ond fel y gwrthrychau yn lluniau Rydet, maen nhw’n datgelu naratif am fywyd cartref – adlewyrchiadau o fywydau’r rhai sy eu meddu.



(ffigur 6)



(ffigur 7)

I gloi:

Yn y traethawd hwn, Dw i wedi trafod gwahanol fathau o wrthrychau – efo lluniau yn un ohonynt – a'r cysylltiadau sydd gan bobl â nhw. Dw i wedi cadarnhau y gall ein heiddo ysgogi atgofion (mewn ffordd debyg i ffotograffiaeth), ond dw i'n credu bod y perthynas hwn rhwng ein hatgofion a'r pethau sydd gennym yn mynd yn llawer dyfnach. Felly, i gloi'r traethawd hwn dw i'n cynnig y cwestiwn: ***Sut mae ffotograffiaeth yn cyfryngu'r berthynas rhwng meddiant a chof?***

Llyfryddiaeth:

Aperture. (2019) *A Japanese Photographer's Gleefully Chaotic Family Life*. [online] Available at: <https://aperture.org/editorial/233-dan-abbe-motoyuki-daifu/>. (Accessed: 15 April 2026)

Barthes, R. (1982) *Camera Lucida : reflections on photography*. Vintage

Christie's. (n.d.) *MORIYAMA DAIDO (b.1938), Smash-up from 'Accident', 1969*. [online] Available at: <https://www.christies.com/en/lot/lot-5067507>. (Accessed: 5 May 2026)

Falkoff, R.R. (2021) *Possessed: A Cultural History of Hoarding*. Cornell University Press.

Futoshi, H. (2019) "Photography as Embalming: Yokota Daisuke's Post-Production Process," *Review of Japanese culture and society*, 31(1), pp. 220–224. Available at: <https://doi.org/10.1353/roj.2019.0016>.

Golden, R. (1999) "The world according to Parr," *PDN ; Photo District News*, 19(3), p. 108.

van den Hoven, E. et al. (2021) "Possessions and memories," *Current opinion in psychology*, 39, pp. 94–99. Available at: <https://doi.org/10.1016/j.copsyc.2020.08.014>.

MacDonald, G. et al. (2007) "Keith Arnatt," *Photoworks*, (8), pp. 46–55.

Parr, M. (1999) *Common sense*. Dewi Lewis.

The Photographers Gallery. (2025). *Zofia Rydet: Sociological Record*. [online] Available at: <https://thephotographersgallery.org.uk/whats-on/zofia-rydet-sociological-record>. (Accessed: 15 April 2026)

Sontag, S. (2002) *On Photography*. Penguin Classics.

Sutton, D. (2009) *Photography, cinema, memory : the crystal image of time*. University of Minnesota Press.

Szupinska-Myers, J.H. (2019) *Socialism's Future Anterior: On Zofia Rydet's Photographs of Polish Interiors, 1978-90*. eScholarship, University of California.